

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Finance Committee**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



Ann Jones AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

18 Mehefin 2013

Annwyl Ann,

Fel y gwyddoch, clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin, pan fuom yn ystyried rhai o'r materion ariannol yng nghyswllt y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru).

Er ein bod wedi'n hargyhoeddi fod angen deddfwriaeth i ddychwelyd y sector i ddosbarthiad gwreiddiol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae gennym bryderon o hyd ynghylch bwriad y Gweinidog mewn cysylltiad â rheolaethau anneddfwriaethol ar y sector. Dywedodd y Gweinidog, 'We may need to look at the financial memorandum and conditions of funding', a chytunodd i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor Cyllid; dywedodd: 'The key element will be around borrowing.'

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn argymhell y dylai'r Gweinidog a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sicrhau eu bod yn cytuno ar ddiffiniad o 'reolaethau anrheoliadol' er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn cyflawni'r diben a fwriadwyd.

Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Ffon/Tel: 029 2089 8164

Ebost/Email: [gareth.price@cymru.gov.uk](mailto:gareth.price@cymru.gov.uk)

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Diolch am fy ngwahodd i ddod i sesiwn o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wrth  
ichi ddod i ddiwedd eich trafodaethau ar y bil.

**Yn gywir**

A handwritten signature in cursive script that reads "Jocelyn Davies".

**Jocelyn Davies AC**  
**Jocelyn Davies AM**